# ARTES MUNDI
# CURADURON CYNORTHWYOL

# PECYN GWYBODAETH A FFURFLENNI CAIS

**CYFLWYNIAD**

Artes Mundi yw'r prif sefydliad celfyddydau gweledol rhyngwladol ei ffocws yng Nghymru.  Mae'n creu cyfleoedd unigryw i unigolion a chymunedau lleol ymgysylltu'n greadigol â phynciau llosg ein hoes mewn ffyrdd sy'n taro tant gyda phob un ohonom.  Rydym wedi ymrwymo i ysgogi deialogau a dadleuon, yn rhyngwladol ac yn lleol, sy'n datblygu gwell dealltwriaeth o'n hunain, o eraill, ac o'r berthynas rhwng diwylliannau cyfarwydd a phellennig.

**Y RÔL**

Rydyn ni am benodi dau Guradur Cynorthwyol.

Bydd y Curaduron Cynorthwyol yn gweithio gyda thîm Artes Mundi i gynllunio a chyflwyno arddangosfa AM11, sydd ar y gweill ac sy'n cael ei chynnal bob dwy flynedd.
Yn benodol, byddant yn cynorthwyo'r Cyfarwyddwr ym mhob agwedd ar gyflwyno'r rhaglen, yn arbennig cydlynu a pharatoi arddangosfeydd, cynllunio gosodiadau, monitro cyllidebau a chyfrannu at ddigwyddiadau a mentrau rhaglennu cyhoeddus.

Bydd gan un swydd gyfrifoldeb penodol am artistiaid sy'n arddangos ym Mostyn, Llandudno a Chanolfan Gelfyddydau Aberystwyth; yr ail ar gyfer artistiaid sy'n arddangos yn Chapter, Caerdydd ac Oriel Gelf Glynn Vivian, Abertawe, a bydd y ddau yn cydlynu â thimau cyfredol o fewn y sefydliadau partner hyn.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i groesawu talent newydd i'n tîm curadurol ymroddedig ac i gefnogi artistiaid, curaduron, awduron, ac eraill sy'n gweithio ym maes y celfyddydau gweledol yng Nghymru.

Yn adrodd i'r Cyfarwyddwr, Nigel Prince, bydd y Curaduron Cynorthwyol yn chwarae rôl allweddol wrth gyflwyno AM11 yn llwyddiannus, ar draws Cymru, a'r Gwobrau cysylltiedig.

**DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU**

**Cyfrifoldebau Allweddol**
Yn adrodd i'r Cyfarwyddwr ac yn gweithio gyda'r Curaduron a thimau staff lleoliadau'r partneriaid o ddydd i ddydd, y Curaduron Cynorthwyol sy'n gyfrifol am y dyletswydddau canlynol:

Datblygu a Chyflwyno'r Rhaglen
- Cefnogi'r holl waith cynllunio curadurol, cydlynu a datblygu arddangosfa Artes Mundi, a gynhelir bob dwy flynedd, digwyddiadau'r Wobr a digwyddiadau cysylltiedig gyda'r Cyfarwyddwr
- Goruchwylio a chyflawni pob agwedd ar amserlennu'r rhaglenni, cydlynu logisteg, rheoli deunydd briffio mewnol/allanol ar gyfer cyflwyno arddangosfa a Gwobr Artes Mundi yn effeithiol
- Goruchwylio, monitro a chyfrannu at y broses o gynllunio, cyflawni, gwireddu a rheoli prosiectau gan gynnwys y gwaith gosod a dadosod ar gyfer arddangosfa a gwobr Artes Mundi drwy ymgynghori ag artistiaid, sefydliadau partner a lleoliadau arddangosfeydd eraill

- Cynnal trosolwg a gweithredu'r yswiriant, cludo gwaith celf, cytundebau benthyca, teithio/llety i artistiaid, yn ogystal â goruchwylio gofynion technegol a dod o hyd i ddeunyddiau, technegwyr ac offer ar gyfer cyflwyno'r arddangosfa a phrosiectau.
- Ymgymryd ag ymchwil a pharatoi deunyddiau ar gyfer y beirniaid o ran eu hymweliadau a'u beirniadaethau, a chydlynu ag artistiaid ac orielau ar y cyd â'r Cyfarwyddwr
- Paratoi a monitro anghenion arddangosfeydd a gofynion ariannol o fewn cyllidebau sefydledig, gan sicrhau bod rhaglenni a phrosiectau yn cadw at y gyllideb
- Cyfrannu at holl gyfarfodydd tîm Artes Mundi

Cyhoeddiadau

- Canfod, cydlynu a chynnig arweiniad i ddylunwyr allanol, awduron gwadd a chydlynu prosesau mewnol ar gyfer allbwn traethodau a chyhoeddiadau fel y bo'n briodol i gefnogi'r Cyfarwyddwr ac eraill o fewn tîm Artes Mundi

Datblygu

- Cynorthwyo i gasglu data a gwerthuso profiadau artistiaid ac ymwelwyr tuag at adroddiadau terfynol fel sy'n ofynnol gan gyllidwyr

Cysylltiadau Cymunedol

- Meithrin a chynnal perthnasoedd positif gydag artistiaid, curaduron, sefydliadau, casglwyr ac orielwyr
- Gweithio gydag orielau yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol i ddatblygu digwyddiadau arddangosfa a Gwobr Artes Mundi

Rhwydweithio a Chydlynu

- Meithrin a chynnal perthnasoedd proffesiynol a rhwydweithiau Artes Mundi i ddatblygu partneriaethau ymhellach yn lleol ac yn rhyngwladol gyda'r nod o gydweithio lle bo modd
- Ynghyd â'r Curadur Rhaglenni Cyhoeddus, cyfrannu at berthnasoedd â grwpiau cymunedol, sefydliadau celfyddydol, addysg a diwylliannol yn ogystal ag unigolion i sicrhau twf ac amrywiaeth y gweithgareddau addysg a'r rhaglen gyhoeddus

**Y PERSON**

Rydyn ni’n chwilio am unigolyn sydd â gyrfa o fewn y celfyddydau gweledol, sy'n cael ei gyffroi gan gyfleoedd a meddwl curadurol ac sy'n gallu dangos ymrwymiad i ymgysylltu ag artistiaid, awduron a churaduron o fewn y celfyddydau gweledol cyfoes yng Nghymru.

Rydyn ni eisiau gweithio gyda phobl:
- Sy’n agored, yn chwilfrydig ac yn angerddol am ddiwylliant a’r celfyddydau yng Nghymru
- Â diddordeb mewn rhannu eu syniadau a diddordeb mewn gwrando ar eraill
- Yn mwynhau dysgu pethau newydd ac ymgymryd â heriau
- Yn gallu gweithio'n annibynnol ond yn gyfforddus yn gofyn am gymorth ac arweiniad

Bydd y rolau hyn yn cael eu cefnogi’n bennaf gan y Cyfarwyddwr, ond byddwch hefyd yn cael cyswllt ac yn gweithio gyda’r tîm Artes Mundi cyfan a staff yn lleoliadau ein partneriaid.

**CYMWYSTERAU, ADDYSG A PHROFIAD**
Celfyddyd gain, hanes celf a/neu astudiaethau curadurol ar lefel graddedig neu 4/5 blynedd o brofiad cyfwerth. Mae siaradwr Cymraeg yn ddymunol iawn.

**SGILIAU A GALLUOEDD**
- Ymchwilio, trefnu a chynllunio adnoddau, a chynhyrchu prosiectau gorffenedig o fewn amserlenni
- Bod ag agwedd gadarnhaol at ddatrys problemau
- Dadansoddi, blaenoriaethu a threfnu gwaith yn annibynnol yn ogystal â bod yn rhan o dîm Artes Mundi
- Mwynhau dysgu pethau newydd ac ymgymryd â heriau
- Gweithio ar sawl tasg yr un pryd
- Brwdfrydedd am ddiwylliant a’r celfyddydau, a’u rôl mewn cymdeithas
- Sgiliau cyfrifiadurol cadarn, gan gynnwys pecyn MS Office gan gynnwys Word, Outlook ac Excel
- Trefnu a chyflawni blaenoriaethau
- Gweithio gyda phobl o wahanol gefndiroedd ar draws ystod eang o lefelau a chyfrifoldebau
- Sgiliau cyfathrebu llafar a rhyngbersonol da.
- Gweithio ar eich liwt eich hun a dan oruchwyliaeth
- Dull hyblyg o weithio, gan ystyried anghenion y sefydliad a chydweithwyr wrth rannu’ch syniadau a gwrando ar syniadau pobl eraill
- Y gallu i weithredu ac arfer crebwyll cadarn a dull cadarnhaol o ddatrys problemau

**Beth fyddwn ni'n ei wneud i'ch cefnogi chi i wneud eich gwaith gorau**

Bydd y Curaduron Cynorthwyol yn gweithio’n agos ac ar y cyd â’r Cyfarwyddwr a fydd yn gyfrifol am sicrhau eich bod yn cael eich cefnogi'n llawn yn eich gwaith. Bydd gwaith yn cael ei wneud ar y safle, yn lleoliadau partneriaid, yn swyddfeydd Artes Mundi yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ac o gartref.

Rydyn ni wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd sy'n meithrin cyfranogiad ystyrlon a phrofiadau dysgu positif. Bydd manteision bod yn dîm craidd bach yn caniatáu i chi gael cyswllt rheolaidd, dyddiol ag aelodau allweddol o staff yn ogystal â chyfrannu at gyfarfodydd cynllunio a rhaglennu ffurfiol. Gall cyfleoedd godi hefyd i gwrdd ag Ymddiriedolwyr.

Byddwn yn darparu lleoliad gwaith i chi yn ein swyddfa yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Serch hynny, fel cyflogwr gweithio hyblyg a hybrid ynghyd â natur y rolau, byddwch yn cael gliniadur, adnoddau ac addasiadau rhesymol i gefnogi gweithio gartref. Mae Artes Mundi wedi ymrwymo i sicrhau y gallwch wneud eich gwaith gorau ac y byddwch yn gallu cefnogi anghenion mynediad lle bo'n briodol o fewn y gyllideb a'r adnoddau sydd ar gael.

Bydd gennych gyfle sylweddol yn y swydd i ddatblygu eich rhwydweithiau. Yn ychwanegol at y gefnogaeth a ddarperir gan Artes Mundi, bydd cyfle i ymgysylltu ag artistiaid a churaduron rhyngwladol ac orielau sy’n cynrychioli artistiaid. Byddwn hefyd yn datblygu cysylltiadau rhyngoch chi a phartneriaid eraill ledled Cymru.

**ARFERION CYNHWYSOL**

Mae Artes Mundi yn anelu at fod yn sefydliad cwbl gynhwysol gyda gweithlu a chynulleidfa y mae eu profiadau bywyd mor amrywiol â’r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.  Mae hyn yn hollbwysig i’n llwyddiant yn y dyfodol a’n gallu i barhau i gyfrannu at ddiwylliant a chymdeithas yng Nghymru a’r DU.

Mae Artes Mundi wedi ymrwymo’n llwyr i sicrhau cydraddoldeb yn ein holl waith ac rydym yn cydweithio’n frwd i greu diwylliannau gwaith cynhwysol. Rydym yn cydnabod bod yna lawer o bobl nad yw eu profiadau a’u safbwyntiau yn cael eu cynrychioli’n dda yn ein gwaith nac yn y sector celfyddydau yng Nghymru, mae hyn yn cynnwys pobl sy’n amrywiol yn ethnig ac yn ddiwylliannol, ac sy’n profi hiliaeth yn ein cymdeithas, pobl fyddar, anabl a niwroamrywiol a phobl o gymunedau dosbarth gweithiol. Rydym yn annog yn benodol ymgeiswyr sy'n gallu siarad ag un neu fwy o'r profiadau a'r diwylliannau hyn, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg.

Sylwer y cynhelir cyfweliadau naill ai ar-lein, drwy ddefnyddio Zoom neu blatfformau eraill ar gais, neu wyneb yn wyneb. Rhoddir mwy o wybodaeth a chyfarwyddiadau i ymgeiswyr sy’n cael eu gwahodd am gyfweliad. Mae cymorth ariannol ar gael i unrhyw un sy'n gofyn am gymorth a fydd yn eu helpu i gymryd rhan yn y cyfweliadau ar-lein.

**TELERAU PENODI**

Cynigir y swyddi hyn fel rhai Talu wrth Ennill (PAYE).

Cynigir y swyddi hyn fel rhai rhan-amser: sef 2.5 diwrnod yr wythnos ar gyfartaledd/18.75 awr yr wythnos (0.5 FTE o 37.5 awr safonol) ond gyda dealltwriaeth y bydd angen hyblygrwydd sy’n berthnasol i’r llwyth gwaith a’r cam cyflawni o fewn yr amserlen gyffredinol ar gyfer cyflawni’r gwaith. Gofynnir i ddeiliaid y swydd gyflawni a gwneud gwaith ar rai nosweithiau a phenwythnosau. Rhoddir rhybudd priodol.

Ar gyfer pob swydd:
- Cytundeb cyfnod penodol o flwyddyn
- Y cyflog yw £15,000 ynghyd â chostau teithio
- Oriau gwaith arferol yw 9.30am - 5.00pm
- Mae'r swyddi wedi'u lleoli yng nghanolbarth i ogledd Cymru a de Cymru yn y drefn honno, gyda pheth amser yn ein swyddfeydd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

**SUT I WNEUD CAIS**

Dylai ymgeiswyr wneud cais am y rôl hon drwy ddefnyddio'r **Ffurflen Gais** a'r **Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal** a'i chyflwyno ar e-bost i opportunities@artesmundi.org gan ddyfynnu **Curaduron Cynorthwyol** yn y llinell destun. Manylir ar opsiynau eraill ar gyfer gwneud cais yn nodiadau canllaw y ddogfen hon.

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 16 Mai 2025, 12pm**
**Bydd cyfweliadau yn cael eu cynnal ar: 26 Mai 2025 amseroedd i'w cadanhau**
**Dyddiad cychwyn sy'n cael ei ffafrio: Cyn gynted â phosib ar ôl y cyfweliad (**gellir trafod hyn yn y cyfweliad)

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

**NODIADAU CANLLAW**

Diolch am fynegi diddordeb mewn ymuno â thîm Artes Mundi. Darllenwch y nodiadau canllaw hyn cyn cwblhau'r Ffurflen Gais a'r Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y swydd, y cais, y ffurflenni neu'r cyfweliad, cysylltwch yn opportunities@artesmundi.org ac fe allwn eich helpu.

**Darllenwch y Disgrifiad Swydd a'r Fanyleb Person**

Mae pwrpas, prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd wedi'u nodi yn y disgrifiad swydd, a rhestrir y wybodaeth, y sgiliau, y priodweddau a'r profiad rydym yn chwilio amdanynt yn yr ymgeisydd llwyddiannus yn y fanyleb person. Mae'n bwysig darllen yr holl wybodaeth yn y dogfennau hyn cyn cwblhau'ch cais.

**Meddyliwch am eich Profiad**

Edrychwch ar y gweithgareddau sy'n rhan o'r swydd. Gofynnwch i'ch hun pam mae gennych chi ddiddordeb yn y swydd hon. A fyddai'n newid da i chi o ran gyrfa? Ai'r bwriad yw ehangu'ch sgiliau a'ch profiad?

Meddyliwch pa dystiolaeth y gallwch ei darparu i ddangos bod y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol gennych chi o unrhyw gyd-destun. Gall esbonio eich swyddi cyfredol (a blaenorol) neu brofiad i rywun arall eich helpu i ddatgelu sgiliau 'cudd' yr ydych wedi'u cymryd yn ganiataol. Gallech gynnwys profiad gwaith gwirfoddol/di-dâl, neu brofiad a gawsoch drwy rôl â chyfrifoldeb yn un o'ch gweithgareddau hamdden, hobïau neu unrhyw agwedd arall ar eich bywyd.

**Llenwi'r Ffurflen**

Peidiwch ag atodi CV, geirdaon neu gopïau o dystysgrifau addysgol i'ch cais.

Mae'n bwysig cofio na all y rhai sy'n rhan o'r broses ddethol ddyfalu na gwneud rhagdybiaethau amdanoch chi. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n sôn wrthym am bopeth sy'n berthnasol i'ch cais a'ch bod yn cwblhau pob adran o'r ffurflen. Darllenwch y cyfarwyddiadau ar y ffurflen gais, sydd â'r nod o'ch helpu chi i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom.

Mae'r adran 'Datganiad Ategol' yn rhan bwysig iawn o'ch cais. Yn yr adran hon, gofynnir i chi ymateb i'r syniadau a'r gwerthoedd hanfodol sy'n berthnasol i'r swydd. Dyma'ch cyfle i ddweud wrthym yn benodol pam eich bod chi am ymgeisio am y swydd a beth sy'n eich gwneud chi'n ymgeisydd addas. Peidiwch â gwneud dim mwy na dweud bod y priodweddau, y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad gennych chi – mae angen darparu enghreifftiau penodol o'r hyn rydych wedi'i wneud a sut rydych chi'n credu eu bod yn berthnasol i'r swydd.

Cofiwch brawfddarllen eich ffurflen a gwirio am unrhyw gamgymeriadau cyn ei chyflwyno i ni.

**Fformatau eraill**

O ran eich 'Datganiad Ategol', gallech gyflwyno fideo neu recordiad sain fel ffeil mp4 nad yw'n fwy na 10 munud o hyd yn lle darn ysgrifenedig. Gwnewch yn siŵr bod cyn lleied o sŵn â phosibl yn y cefndir a'ch bod yn siarad yn glir. Mae rhagor o wybodaeth am hyn o

dan yr adran Datganiad Ategol.

Os ydych chi’n dewis defnyddio’r fformat hwn mae’n rhaid i chi ddychwelyd rhan gyntaf eich Ffurflen Gais a’r Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal i ni mewn e-bost o hyd. Cysylltwch â ni os ydych angen unrhyw gymorth.

**Cyfweliad**
Bydd rhagor o wybodaeth a chyfarwyddiadau’n cael eu darparu i ymgeiswyr sy’n cael eu gwahodd i gyfweliad. Bryd hynny byddwch yn gallu rhoi manylion unrhyw drefniadau arbennig neu addasiadau rydych chi eu hangen er mwyn gallu cymryd rhan yn ein proses ddethol trwy gyfweliad yn effeithiol.

**Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal**
Rhaid cyflwyno Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal wedi'i chwblhau gyda phob cais. Bydd y ffurflen yn cael ei darparu fel dolen arolwg i'w chwblhau ac ni fydd yn chwarae unrhyw ran yn y broses.

*Os ydych yn gwneud cais am swydd sy’n cynnwys gweithio gyda phlant/oedolion agored i niwed, efallai y bydd eich cynnig o gyflogaeth yn amodol ar ddatgeliad boddhaol gan y Gwasanaethau Datgelu a Gwahardd (DBS). Gallai methu â datgelu gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw euogfarnau arwain at dynnu cynnig cyflogaeth yn ôl.*

artesmundi

**Curaduron Cynorthwyol**

**Ffurflen Gais**

| |
|---|
| Cyfeirnod<br>At ddefnydd swyddfa yn unig |

| | |
|---|---|
| Enw(au) cyntaf | Cyfenw |
| Cyfeiriad | |
| Cod Post | |
| Ffôn | Symudol |
| E-bost | |

| |
|---|
| Sut glywsoch chi am y rôl yma? |

*Bydd yr adran hon yn cael ei gwahanu o'ch ffurflen gais wrth ei derbyn ac ni fydd yn chwarae unrhyw ran yn y broses ymgeisio.*

| Cyfeirnod<br>At ddefnydd swyddfa yn unig |
|---|

**DATGANIAD ATEGOL**

Dyma'ch cyfle i sôn yn benodol ynglŷn â pham rydych yn dymuno gwneud cais am y swydd a'r rhinweddau sy'n golygu y dylech fod yn Curaduron Cynorthwyol gydag Artes Mundi.

Soniwch wrthym am y modd y byddech yn mynd i'r afael â'ch gwaith a'r rôl. Defnyddiwch eich gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau blaenorol a phresennol gan roi enghreifftiau sy'n dangos sut y byddech yn cymhwyso'r rhain at syniadau, gwerthoedd a dulliau gweithio sy'n berthnasol i'r rôl.

Fel arweiniad i strwythuro'ch datganiad, efallai yr hoffech ystyried ambell un neu bob un o'r cwestiynau isod.

- Pam rydych chi'n gwneud cais am y swydd hon?
- Soniwch wrthym am eich angerdd/ymrwymiad at ddiwylliant a'r celfyddydau
- Beth rydych yn ei fwynhau am ddysgu pethau newydd ac ymgymryd â heriau?
- Sut fyddwch chi'n mynd ati i flaenoriaethu tasgau?
- A oes gennych ddulliau penodol ar gyfer cynllunio a datrys problemau?
- Ym mha ffyrdd ydych chi'n gweithio gyda phobl eraill ac yn annibynnol?

Yn gyffredinol, ni ddylai'ch datganiad fod yn hirach na dwy ochr A4 mewn ffont 11pt fan lleiaf. Neu, fel y crybwyllir yn y canllaw, gellir cyflwyno hwn ar ffurf fideo neu recordiad sain. Os byddwch yn defnyddio'r dull yma, ni ddylai fod yn hirach na 10 munud.

Os fyddwch chi'n penderfynu cyflwyno fideo neu recordiad sain, gwnewch yn siŵr fod cyn lleied o sŵn yn y cefndir â phosib. Peidiwch ag ychwanegu effeithiau eraill at y cyflwyniadau hyn – dim ond siarad yn uniongyrchol ac yn glir â'r microffon neu'r camera. Gall recordiadau fideo a sain greu ffeiliau mawr a allai fod yn anodd eu hanfon drwy e-bost felly anfonwch ddolenni a chyfrineiriau i'ch ffeiliau naill ai ar YouTube, Vimeo neu Soundcloud neu eu e-bostio atom gan ddefnyddio Wetransfer ar opportunities@artesmundi.org gyda "Curaduron Cynorthwyol" yn y pennawd.

| |
|---|
| Cyfeirnod<br>At ddefnydd swyddfa yn unig |

**Cyflogaeth gyfredol neu ddiweddaraf (Gyda chyflog neu'n ddigyflog)**

| | |
|---|---|
| Enw a chyfeiriad y cyflogwr | |
| Teitl y swydd | Dyddiadau'ch cyflogaeth |
| Cyfnod rhybudd sydd ei angen os o gwbl | |
| Rhowch fraslun byr o'ch prif ddyletswyddau a/ neu gyfrifoldebau | |

**Gwybodaeth o Gymraeg llafar neu ieithoedd eraill. Nodwch yr iaith a'r lefel (e.e. mynediad, sylfaen, canolradd, uwch, hyfedrus)**
Nid oes angen ail iaith i'r swydd hon

| |
|---|
| |

**Cyflogaeth arall a gwaith gwirfoddol (Gyda chyflog a/neu ddigyflog)**
Rhestrwch y diweddaraf yn gyntaf

| O:<br>I: | Enw a chyfeiriad y cyflogwr | Rôl a chyfrifoldebau | Rhesymau am adael/ symud ymlaen |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Addysg a Hyfforddiant**
Rhowch fanylion unrhyw gymwysterau a gafwyd a'r rheiny yr ydych yn ceisio amdanynt ar hyn o bryd ac unrhyw hyfforddiant rydych chi wedi'i gyflawni neu sy'n parhau.
Rhestrwch y diweddaraf yn gyntaf

| Ysgol/ Coleg/ Prifysgol/ Darparydd Hyfforddiant | Pynciau a graddau a/neu deitl y cwrs | Dyddiadau derbyn |
|---|---|---|
| | | |

**Gwirio**

Cadarnhaf, hyd y gwn i, fod y wybodaeth uchod yn gywir.

Cadarnhaf nad ydw i mewn addysg llawn-amser (12 awr neu ragor o astudio ffurfiol yr wythnos)

Cadarnhaf fod gen i hawl i weithio yn y DU

Deddf Diogelu Data
Noder pan fyddwch yn llofnodi’r ffurflen hon ei bod yn rhoi caniatâd iddi gael ei defnyddio ar gyfer y broses recriwtio. Cedwir yr holl fanylion yn gyfrinachol.

Llofnodwyd: Dyddiad:

Noder y bydd yn rhaid cwblhau ein Ffurflen Monitro Cyfleoedd Cyfartal ar wahân ac ni fydd yn cael ei defnyddio at lunio rhestr fer, yn unol â’n Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Bydd cwblhau hon yn helpu Artes Mundi yn eu hymrwymiad i fod yn gyflogwr cyfleoedd cyfartal.

**Canolwyr**

Rhowch fanylion dau ganolwr, y naill yn gyflogwr presennol i chi neu'ch cyflogwr diweddaraf os nad ydych mewn gwaith ar hyn o bryd. Gallai'r llall fod yn rhywun a all fynegi barn broffesiynol ar eich gwaith a'ch gallu i berfformio'r swydd yr ydych yn gwneud cais amdani.

Ni fyddwn yn cysylltu â chanolwyr cyn cyfweliad.

| | |
|---|---|
| Enw | Enw |
| Teitl swydd | Teitl swydd |
| Enw sefydliad | Enw sefydliad |
| Cyfeiriad | Cyfeiriad |
| Rhif Ffôn Cyswllt<br><br>E-bost Cyswllt | Rhif Ffôn Cyswllt<br><br>E-bost Cyswllt |
| Ers pryd rydych wedi nabod y person yma a sut? | Ers pryd rydych chi'n nabod y person yma a sut? |

**Diolch yn fawr am eich diddordeb yn Artes Mundi ac am gymryd yr amser i gwblhau'r ffurflen gais yma**